WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyflawni gyda Llai – Gwasanaethau Hamdden – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1114A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn rhan o waith a gyflawnwyd/i'w gyflawni yn unol â swyddogaethau statudol.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yng nghyswllt unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn ei swyddogaeth unigol, nac o ran unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, pan fo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig, yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Dave Wilson, Allison Rees, Lisa McCarthy, o dan reolaeth rhaglen Non Jenkins a chyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol i sicrhau bod gwasanaethau hamdden yn cael eu darparu mewn ffordd gynaliadwy i ddiwallu anghenion ei drigolion.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer Gwella 5

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol i sicrhau bod gwasanaethau hamdden yn cael eu darparu mewn ffordd gynaliadwy i ddiwallu anghenion ei drigolion 6

Mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion ers rhoi ei wasanaethau hamdden ar gontract allanol yn 2014, ond nid yw'r model hwn wedi cyflawni fel y bwriadwyd yn wreiddiol ac mae'n wynebu heriau ariannol parhaus 6

Yn 2018, cynhaliodd y Cyngor adolygiad llawn o'i wasanaethau hamdden, ond roedd amserlenni yn rhy dynn i ddatblygu'r opsiynau'n llawn a bu'n rhaid ymestyn yr amserlen adolygu 10

Mae gan y Cyngor amser cyfyngedig nawr i ddatblygu a darparu model cynaliadwy 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Ym mis Hydref 2014, rhoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (y Cyngor) ei wasanaethau hamdden ar gontract allanol i Ymddiriedolaeth Hamdden Life sy'n gweithredu o dan enw masnachu Aneurin Leisure (yr Ymddiriedolaeth). Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am weithredu, rheoli a datblygu cyfleusterau chwaraeon a hamdden dan do ac awyr agored, datblygu chwaraeon a'r celfyddydau, lleoliad celfyddydau, parciau gwledig, llyfrgelloedd a chanolfannau dysgu cymunedol ledled Blaenau Gwent. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio'r term gwasanaethau hamdden i olygu'r gwasanaethau hyn a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth.

2 Yn 2018, cynhaliodd y Cyngor adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar ei ran gan yr Ymddiriedolaeth ac ystyriodd dri opsiwn rheoli a darparu ar gyfer y dyfodol:

  a. yr Ymddiriedolaeth i barhau gyda chyllideb dapro 5 mlynedd;
  b. dychwelyd yr holl wasanaethau i'r Cyngor;
  c. Model Darparu Gwasanaeth arall.

3 'Cysgodwyd' adolygiad hamdden y Cyngor gennym rhwng mis Mehefin a mis Rhagfyr 2018 trwy arsylwi cyfarfodydd, adolygu dogfennau a chyfweld â swyddogion ac aelodau allweddol.

4 Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod **y Cyngor yn wynebu heriau sylweddol i sicrhau bod gwasanaethau hamdden yn cael eu darparu mewn ffordd gynaliadwy i ddiwallu anghenion ei drigolion.**

5 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

  a. bod y Cyngor wedi gwneud arbedion ers rhoi ei wasanaethau hamdden ar gontract allanol yn 2014, ond nid yw'r model hwn wedi cyflawni fel y bwriadwyd yn wreiddiol ac mae'n wynebu heriau ariannol parhaus;
  b. yn 2018, cynhaliodd y Cyngor adolygiad llawn o'i wasanaethau hamdden, ond roedd amserlenni yn rhy dynn i ddatblygu'r opsiynau'n llawn a bu'n rhaid ymestyn yr amserlen adolygu; ac
  c. mae gan y Cyngor amser cyfyngedig nawr i ddatblygu a darparu model cynaliadwy.

# Cynigion ar gyfer gwella

6 Mae'r tabl isod yn cynnwys ein cynigion ar gyfer ffyrdd y gallai'r Cyngor wella darbodaeth, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chynaliadwyedd ei wasanaethau hamdden i'w roi mewn sefyllfa well i ymateb i heriau'r presennol a'r dyfodol.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella |
|---|
| **Dysgu o'r trefniant gwasanaethau hamdden presennol:**<br>C1 Sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r trefniant Ymddiriedolaeth presennol yn cael eu hystyried wrth sefydlu'r trefniant gwasanaethau hamdden newydd; gan gynnwys<br>• sicrhau bod gan swyddogion ac Aelodau ddealltwriaeth eglur o gyfrifoldebau'r Cyngor a nodir mewn trefniadau cyfreithiol ar gyfer unrhyw wasanaethau a roddir ar gontract allanol;<br>• egluro a chytuno ar ddisgwyliadau datblygu gwasanaeth yn ogystal â thargedau ariannol o'r cychwyn;<br>• sicrhau bod targedau ariannol yn realistig ac yn gyflawnadwy; a<br>• monitro perfformiad yn brydlon fel y gall y Cyngor ragweld unrhyw berfformiad gwael posibl neu bryderon ynghylch cynaliadwyedd ariannol y trefniant yn y dyfodol mewn da bryd i gymryd camau cywiro. |
| **Gwersi y gall y Cyngor fanteisio arnynt o'r broses adolygu gwasanaethau hamdden i hysbysu ei adolygiadau gwasanaeth eraill:**<br>C2 Sicrhau bod rhaglen y Cyngor o adolygiadau gwasanaeth yn gweithio yn unol â chwmpasau prosiect realistig; gan gynnwys drwy sicrhau:<br>• bod amserlenni yn realistig ac yn gyflawnadwy;<br>• bod cyfranogiad aelodau addas a phrydlon i ganiatáu craffu effeithiol;<br>• bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i gwblhau adolygiadau gwasanaeth;<br>• bod opsiynau wedi'u diffinio'n dda; a<br>• bod yr opsiynau a gynigir wedi'u costio'n llawn a bod amserlenni arfaethedig wedi'u cynnwys ar gyfer gweithredu i gynorthwyo proses gwneud penderfyniadau effeithiol. |
| **Paratoi ar gyfer model(au) darparu arall:**<br>C3 Rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau parhad gwasanaethau hamdden a phontio didrafferth i fodel darparu arall cynaliadwy ac effeithlon. |

# Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol i sicrhau bod gwasanaethau hamdden yn cael eu darparu mewn ffordd gynaliadwy i ddiwallu anghenion ei drigolion

## Mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion ers rhoi ei wasanaethau hamdden ar gontract allanol yn 2014, ond nid yw'r model hwn wedi cyflawni fel y bwriadwyd yn wreiddiol ac mae'n wynebu heriau ariannol parhaus

### Un o gymhellion allweddol y Cyngor i sefydlu'r Ymddiriedolaeth oedd darparu manteision ariannol

7 Yn 2012, dechreuodd y Cyngor ystyried modelau eraill ar gyfer darparu ei Wasanaethau Hamdden. Cymhelliad y Cyngor ar gyfer sefydlu Ymddiriedolaeth oedd yr angen i wneud arbedion ariannol. Yn ystod y tair blynedd cyn trosglwyddo gwasanaethau hamdden yn 2014, llwyddodd y gwasanaeth i arbed tua £800,000 ond ni allai weld unrhyw gyfleoedd sylweddol eraill i wneud arbedion ariannol yn ei wasanaeth hamdden ac eithrio trwy archwilio'r opsiwn o allanoli'r gwasanaeth.

8 Rhwng 2012 a 2014, adolygodd y Cyngor wasanaethau hamdden ym Mlaenau Gwent, gyda chymorth ymgynghorydd allanol. Ystyriodd yr adolygiad opsiynau darparu a rheoli ar gyfer y dyfodol gan lunio achos busnes yn gwerthuso'r pum opsiwn canlynol:

- a. y Cyngor yn cadw Gwasanaethau Hamdden;
- b. sefydlu Sefydliad Dosbarthu Dielw ar gyfer gwasanaethau hamdden;
- c. trosglwyddo gwasanaethau hamdden i Sefydliad Dosbarthu Dielw presennol;
- ch. trosglwyddo gwasanaethau hamdden i gymysgedd o Ymddiriedolaethau; neu
- d. trosglwyddo gwasanaethau hamdden i'r sector preifat.

9 Penderfynodd y Cyngor sefydlu Sefydliad Dosbarthu Dielw ar gyfer gwasanaethau hamdden. Rhagwelodd y byddai hyn yn sicrhau arbedion ariannol trwy osgoi costau ac ennill incwm ychwanegol posibl trwy arbedion ar Ardrethi Annomestig Cenedlaethol, gostyngiad i TAW, mynediad at gyllid loteri a chyllid elusennol.

### Sefydlodd y Cyngor yr Ymddiriedolaeth Hamdden ac aeth ati'n fuan i wneud newidiadau i'r trefniadau gan arwain at gostau ychwanegol i'r Cyngor

10 Ar 30 Medi 2014, cymeradwyodd y Cyngor drosglwyddiad rhai gwasanaethau hamdden i Sefydliad Dosbarthu Dielw. Dechreuodd y Sefydliad Dosbarthu Dielw, a alwyd yn Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin, weithredu ar 1 Hydref 2014. Trosglwyddwyd y gwasanaethau a'r asedau hamdden canlynol i'r Ymddiriedolaeth Hamdden:

a. Dysgu Oedolion a'r Gymuned;

b. Datblygiad a Lleoliadau y Celfyddydau (y Metropole/Ystafell Ddawnsio Beaufort);

c. Canolfan Gymunedol Brynmawr;

ch. Safleoedd Treftadaeth a Chadwraeth Drefol Treftadaeth;

d. Llyfrgelloedd;

dd. Chwaraeon a Byw'n Egnïol;

e. Parc Bryn Bach;

f. Tŷ a Pharc Bedwellte; a

ff. Chanolfannau Chwaraeon.

11 Cefnogwyd y trefniant rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth gan bedwar cytundeb cyfreithiol fel a ganlyn:

a. Cytundeb Ariannu a Rheoli;

b. Cytundeb Trosglwyddo Busnes;

c. Cytundeb Gwasanaethau Cymorth; a

ch. Chytundeb Derbyn i gymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Fel y bwriadwyd, mae'r Cyngor wedi gostwng y ffi reoli yr oedd yn ei thalu i'r Ymddiriedolaeth i redeg ei wasanaeth hamdden yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Mae Arddangosyn 2 yn nodi'r ffi reoli a'r gostyngiadau blynyddol ers sefydlu'r Ymddiriedolaeth yn 2014.

Mae Arddangosyn 2 yn dangos y ffi reoli a dalwyd i'r Ymddiriedolaeth ers 2014

| | Blwyddyn 1 2014/15 (Hydref 2014 a Mawrth 2015) £ | Blwyddyn 2 2015/16 £ | Blwyddyn 3 2016/17 £ | Blwyddyn 4 2017/18 £ | Blwyddyn 5 2018/19 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllideb Ffi Reoli Flynyddol | 1,884,000 | 3,670,400 | 3,392,640 | 3,240,570 | 3,085,580 |
| Gostyngiad i'r ffi reoli flynyddol | | 86,000 | 232,000 | 86,000 | 86,000 |

12 Ers 2015, mae 11 o asedau/gwasanaethau hamdden a drosglwyddwyd i'r Ymddiriedolaeth yn wreiddiol wedi dychwelyd i'r Cyngor: dychwelodd pedwar o asedau i'r Cyngor yn 2015, dychwelodd pump yn 2016, un yn 2017 ac un yn 2018. Mae'r Cyngor wedi cwblhau Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol ar gyfer rhai o'r asedau hyn ers hynny.

13 Y Cyngor sy'n gyfrifol am y cynnydd i gyfraniadau pensiwn cyflogeion yr Ymddiriedolaeth Hamdden a chostau dileu swyddi staff yr Ymddiriedolaeth Hamdden, sy'n dod i gyfanswm o £904,483. Mae'r ymrwymiadau ariannol hyn a'r 11 o wasanaethau/asedau hamdden a ddychwelwyd yn annisgwyl i'r Cyngor â chost o £149,555, wedi arwain at gostau ychwanegol i'r Cyngor o £1,054,038 ers trosglwyddo'r gwasanaethau hamdden.

14 Yn ystod pedair blynedd gyntaf yr Ymddiriedolaeth Hamdden, gofynnodd y Cyngor i'r Ymddiriedolaeth wneud arbedion ariannol ychwanegol. Daeth yr arbedion i gyfanswm o £353,000 yn ogystal â'r gostyngiad blynyddol i'r ffi reoli. Yn ymarferol, mae'r Ymddiriedolaeth Hamdden wedi gallu darparu rhan o'r arbedion ariannol ychwanegol hyn yn unig, ac mae hyn wedi achosi mwy o bwysau o ran costau i'r Cyngor.

15 Trwy sefydlu Ymddiriedolaeth, amcangyfrifodd y Cyngor y byddai'n arbed £5.27 miliwn yn ystod pum mlynedd gyntaf ei gweithredu. Er bod y Cyngor wedi adrodd am y sefyllfa arbedion gyffredinol sawl gwaith i wahanol fforymau'r cyngor trwy gydol ei adolygiad diweddar o'r gwasanaeth, canfuwyd amrywiadau anghyson gennym yn yr arbedion hyn a adroddwyd. Er enghraifft, adroddwyd arbediad net o £677,962 i dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol ar 5 Mehefin 2018 (fel a nodwyd yn yr adroddiad 'Datganiad Sefyllfa Ymddiriedolaeth Hamdden 2018'). Nid oedd yr arbediad o £677,962 yn cynnwys costau heb eu casglu ar y pryd o ryw £140,000 yn gysylltiedig â throsglwyddo Theatr Beaufort yn ôl i'r Cyngor, anfoneb gan yr Ymddiriedolaeth heb ei thalu, a'r Ymddiriedolaeth yn methu â chyflawni'r arbediad ychwanegol ar gyfer 2018-19 yn ymwneud ag arbedion lleihau staff.

16 Mis yn ddiweddarach ym mis Gorffennaf 2018, cafodd yr un tîm Arweinyddiaeth ddatganiad arall o sefyllfa'r Ymddiriedolaeth Hamdden yn dangos gwahanol ddata ariannol. Roedd yr adroddiad hwn yn nodi arbediad cyfunol a oedd yn gyfanswm o £6,028,000 rhwng 2014-15 a 2018-19 gyda chyfanswm cost i'r Cyngor o £1,054,038 ers trosglwyddo gwasanaethau i'r Ymddiriedolaeth.

17 Ers hynny, mae'r Cyngor wedi egluro mai £4,211,962 yw'r arbedion/swm osgoi costau gwirioneddol ers sefydlu'r Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn dangos bod y data ariannol a ddarparwyd yn ystod yr adolygiad wedi bod yn anghywir.

## Roedd gan y Cyngor ddiffyg gweledigaeth wrth bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer Hamdden, ac nid yw gwaith monitro perfformiad wedi bod yn gwbl effeithiol.

18 Nid oedd gan y Cyngor weledigaeth na strategaeth ar gyfer gwella gwasanaethau hamdden ym Mlaenau Gwent rhwng 2014 a 2018. Daeth Strategaeth Hamdden flaenorol y Cyngor i ben yn 2014. Heb weledigaeth ar gyfer gwasanaethau

hamdden ym Mlaenau Gwent, nid oedd yr Ymddiriedolaeth wedi llunio cynllun busnes yn nodi sut y byddai'n darparu gwasanaethau hamdden yn y dyfodol, er bod hwn yn un o ofynion y trefniant ariannu a rheoli. Yn rhan o adolygiad gwasanaethau hamdden y Cyngor, cymeradwyodd y Cyngor Strategaeth Hamdden a Diwylliant ddrafft 2019-2029 ym mis Tachwedd 2018.

19 Canfuwyd gennym yn ystod ein hadolygiad fod y Cyngor wedi monitro perfformiad yr Ymddiriedolaeth ond nad oedd hyn wedi bod yn effeithiol. Roedd swyddogion y Cyngor yn cyfarfod â rheolwyr yr Ymddiriedolaeth Hamdden bob mis, ac roedd yr Ymddiriedolaeth Hamdden yn darparu adroddiadau perfformiad rheolaidd i'r Cyngor. Roedd y pwyllgor craffu ar yr Amgylchedd, Adfywio a Datblygu Economaidd yn derbyn adroddiadau perfformiad bob chwe mis, ond nid oedd yr adroddiadau hyn yn brydlon mewn gwirionedd. Er enghraifft, ym mis Hydref 2018, cafodd yr aelodau adroddiad perfformiad yr Ymddiriedolaeth Hamdden ar gyfer mis Medi 2017 i fis Mawrth 2018.

20 Mae'r wybodaeth am berfformiad a gyflenwyd gan yr Ymddiriedolaeth yn dangos perfformiad gweithredol, fel nifer yr ymweliadau â gwahanol leoliadau a gweithgareddau hamdden ac incwm a gwariant. Nid oedd yr wybodaeth hon wedi bod yn ddigonol i dynnu sylw'r Cyngor at bryderon posibl ynghylch sefyllfa ariannol barhaus yr Ymddiriedolaeth. Rhwng 2014 a mis Mawrth 2017, asesiad cyffredinol y Cyngor o lefel perfformiad yr Ymddiriedolaeth oedd ei bod yn dda neu'n uchel, a bod rhai meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, ym mis Hydref 2018 tynnodd adroddiad perfformiad Medi 2017- Mawrth 2018 sylw'r pwyllgor craffu ar yr Amgylchedd, Adfywio a Datblygu Economaidd at ddarlun cymysg o berfformiad a rhai meysydd o bryder yn enwedig yn ymwneud â'r gyllideb a'r sefyllfa ariannol.

### Mae trefniant parhaus gyda'r darparwr presennol yn bwysig ar gyfer darpariaeth barhaus gwasanaethau hamdden tan i'r Cyngor benderfynu ar ei fodel darparu newydd a bod hwn ar waith

21 Mae cynnal y berthynas bresennol â'r Ymddiriedolaeth yn hanfodol i sicrhau parhad gwasanaethau hamdden. Hefyd, yn unol â'r cytundeb Ariannu a Rheoli, os bydd y Cyngor yn gweithredu ei benderfyniad ar 29 Tachwedd 2018 na fyddai'r Ymddiriedolaeth Hamdden yn parhau fel y mae gyda gostyngiad cyllideb wedi'i dapro yn ystod y pum mlynedd nesaf 2019-24, mae'n rhaid iddo gytuno ar gynllun ymadael gyda'r Ymddiriedolaeth Hamdden yn cynnwys cyflawniad rhwymedigaethau'r ddau barti yn ystod y cyfnod ymadael â throsglwyddo.[1]

22 Yn ystod hydref 2018, yn dilyn dyfarniad cyflog i staff a oedd yn gweithio i'r Ymddiriedolaeth Hamdden, cytunodd y Cyngor ar daliad o £50,000 i helpu i ariannu'r dyfarniad cyflog hwn.

[1] Cytundeb Ariannu a Rheoli yn ymwneud â darparu gwasanaethau Hamdden, Diwylliant a Dysgu, paragraff 46.1.1

23 Yn dilyn y gwaith maes ar gyfer yr adolygiad hwn, ysgrifennodd yr Ymddiriedolaeth at y Cyngor gan dynnu sylw at bryderon ynghylch ei sefyllfa ariannol bresennol a'i heffaith ar gynaliadwyedd y busnes. Ymatebodd y Cyngor yn gadarnhaol i'r pryderon ariannol hyn ac mae'n gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth i ddod o hyd i atebion. Ym mis Rhagfyr 2018, cymeradwyodd y Rheolwr Gyfarwyddwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Gweithredol, o dan awdurdod dirprwyedig, daliad o £100,000 i'r Ymddiriedolaeth Hamdden i wrthbwyso yn rhannol golled masnachu rhagamcanol yr Ymddiriedolaeth Hamdden o £135,000. Cadarnhawyd y penderfyniad gan y Cyngor yn ddiweddarach. Cytunodd y Cyngor ar amodau gyda'r Ymddiriedolaeth yn gysylltiedig â'r taliad hwn ac mae'n ceisio datblygu perthynas waith well â'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y dyfodol.

## Yn 2018, cynhaliodd y Cyngor adolygiad llawn o'i wasanaethau hamdden, ond roedd amserlenni yn rhy dynn i ddatblygu'r opsiynau'n llawn a bu'n rhaid ymestyn yr amserlen adolygu

### Penderfynodd y Cyngor adolygu gwasanaethau hamdden a'i drefniant gyda'r Ymddiriedolaeth ond camddeallodd yr amserlenni fel y'u nodwyd yn y cytundeb Ariannu a Rheoli i gychwyn

24 Mae'r cytundeb Ariannu a Rheoli yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal adolygiad o'r trefniadau rhwng y Cyngor a'r Ymddiriedolaeth Hamdden ar ôl pedair blynedd. Fodd bynnag, ar 18 Ebrill 2018, penderfynodd Gweithrediaeth y Cyngor gynnal adolygiad o wasanaethau ehangach gan ystyried rheolaeth a darpariaeth gwasanaethau hamdden yn y dyfodol, yn hytrach na chyfyngu ei hun i adolygiad o'r trefniadau presennol gyda'r Ymddiriedolaeth Hamdden.

25 Camddehonglwyd gan y Cyngor yr amserlenni a nodwyd yn y cytundeb Ariannu a Rheoli ar gyfer adolygu'r trefniadau presennol. Mae'r contract yn nodi mis Gorffennaf 2018, ond roedd y Cyngor yn credu'n wreiddiol mai mis Hydref 2018 fyddai'r dyddiad i gychwyn adolygiad. O ganlyniad, comisiynodd y Cyngor gyngor cyfreithiol allanol i adolygu'r cytundeb Ariannu a Rheoli ac i egluro ei gyfrifoldebau. Arweiniodd y camddealltwriaeth hwn o'r gofynion cyfreithiol at gyfnod cyfyngedig pan allai'r Cyngor gwblhau ac adrodd ar ganfyddiadau'r adolygiad. Fel yr adroddwyd i dîm Arweinyddiaeth yr Amgylchedd ac Adfywio a'r tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol ym mis Chwefror 2018, roedd yr amserlen arfaethedig i gwblhau'r adolygiad fel a ganlyn:

- 12 Mawrth 2018 – Pwyllgor Craffu Arbennig
- 18 Ebrill 2018 – Penderfyniad gweithredol ar gynnal adolygiad llawn o wasanaethau Hamdden
- 23 Ebrill – 15 Mehefin 2018 – Comisiynu cymorth proffesiynol allanol
- 18 Mehefin – 17 Awst 2018 – Archwilio opsiynau

- Medi 2018 – Cyflwyno adroddiad ar ganfyddiadau ac argymhellion i'r pwyllgor Craffu a'r pwyllgor Gweithredol
- Medi 2018 – Hysbysu'r Ymddiriedolaeth Hamdden am gynigion y Cyngor

## Sefydlodd y Cyngor gweithgor a chomisiynodd ymgynghorwyr allanol i gynorthwyo ei adolygiad

26 Roedd y Cyngor eisoes wedi ymrwymo adnoddau ddechrau 2018 i gynnal yr adolygiad ehangach o wasanaethau hamdden, cyn penderfyniad y Weithrediaeth i fwrw ymlaen â'r adolygiad. Sefydlodd Weithgor Adolygu Hamdden o uwch reolwyr, a oedd yn cynnwys y swyddog S151, y Pennaeth Cydymffurfiad Cyfreithiol a Chorfforaethol, y prif Gyfarwyddwr Corfforaethol, Pennaeth y Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Pennaeth Datblygu Sefydliadol, Rheolwr y Tîm Gwasanaethau a Chyfleusterau Hamdden, Arweinydd Tîm y Prosiect Strategol a chynrychiolydd Undeb Llafur. Diben y gweithgor hwn oedd:

- a. adolygu'r cytundeb ariannu a rheoli (adolygiad busnes y pum mlynedd gyntaf) ac ar gyfer y pum mlynedd nesaf 2019-2024;
- b. nodi unrhyw opsiynau y mae angen eu hadolygu ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a Gwasanaethau Hamdden;
- c. cytuno ar ddiwygiadau i amodau'r contract, os oes angen;
- ch. ystyried gwasanaethau sydd mewn perygl oherwydd gostyngiadau i'r gyllideb dros y blynyddoedd nesaf;
- d. cyflwyno gweledigaeth eglur ar gyfer Gwasanaethau Hamdden; a
- dd. darganfod a oes angen cymorth allanol i ymgymryd â'r gwaith hwn a'i gefnogi.

27 Dyma'r opsiynau y gofynnwyd i'r Gweithgor Adolygu Hamdden eu hystyried:

- a. yr Ymddiriedolaeth Hamdden i barhau gyda gostyngiad cyllideb wedi'i dapro ar gyfer 2019-2024;
- b. cynnal ymarfer dadgwmpasu ar bob gwasanaeth a reolir gan yr Ymddiriedolaeth Hamdden;
- c. dychwelyd yr holl wasanaethau i'r Cyngor;
- ch. ymchwilio i ddarparwyr eraill ar gyfer gwasanaethau hamdden; a
- d. gwahanol fodelau darparu gwasanaeth.

28 Cydnabuodd y Cyngor rai bylchau o ran sgiliau a chapasiti a chomisiynodd ymgynghorwyr allanol i gynorthwyo a chynghori ei adolygiad o wasanaethau hamdden.

29 Gweithiodd y Gweithgor Adolygu Hamdden yn effeithiol. O ystyried yr amserlenni tynn a oedd yn ei wynebu erbyn hyn, gwnaeth ymdrech sylweddol i flaenoriaethu gweithgarwch a chyfarfodydd y gweithgor. Cefnogwyd pob cyfarfod gweithgor gan agendâu, dogfennau perthnasol a chofnodion a chafwyd presenoldeb da yn y cyfarfodydd. Roedd gan y Gweithgor Adolygu Hamdden bwyslais eglur ar fodloni terfynau amser tynn ac yn adrodd i uwch reolwyr fel mater o drefn.

30 Bu newid i Swyddog Arweiniol y Gweithgor Adolygu Hamdden yn ystod yr adolygiad o Wasanaethau Hamdden. Er bod effaith ar gapasiti'r Gweithgor Adolygu Hamdden o ran niferoedd swyddogion, cafwyd trosglwyddiad didrafferth rhwng Swyddogion Arweiniol gan sicrhau pwyslais parhaus a di-dor y Gweithgor Adolygu Hamdden.

31 Lluniodd yr ymgynghorwyr y matrics gwerthuso drafft y byddai'r Cyngor yn ei ddefnyddio yn ddiweddarach i werthuso gwahanol fodelau darparu. Heriodd y Gweithgor Adolygu Hamdden y matrics gwerthuso drafft gyda'r ymgynghorwyr gan gynnig sawl fersiwn cyn i'r Gweithgor Adolygu Hamdden gymeradwyo'r fersiwn derfynol.

32 Hefyd, datblygodd yr ymgynghorwyr Strategaeth Hamdden a Diwylliant y Cyngor ar yr un pryd â drafftio'r matrics drafftio, cyn ymgynghori arni a'i drafftio.

## Methwyd â chydymffurfio ag amserlenni gwreiddiol ar gyfer cwblhau'r adolygiad gan greu pwysau ar swyddogion ac arwain at rai newidiadau i'r cwmpas adolygu a threfniadau adrodd

33 Mewn cyfarfod Gweithrediaeth/Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol ar y cyd ym mis Gorffennaf 2018, crynhowyd y pum opsiwn gwreiddiol yn dri opsiwn gan y Cyngor, fel a ganlyn:

- yr Ymddiriedolaeth Hamdden i barhau gyda gostyngiad i'r gyllideb wedi'i dapro dros y pum mlynedd nesaf 2019-2024;
- yr holl wasanaethau hamdden i ddychwelyd i reolaeth y Cyngor; a
- gwahanol fodelau darparu gwasanaeth.

34 Methwyd â chydymffurfio â'r amserlenni gwreiddiol (fel y dangosir yn arddangosyn 3) a newidiodd y cynlluniau gwreiddiol i adrodd i'r aelodau. Mae hyn yn dangos naill bod yr amserlenni gwreiddiol yn rhy uchelgeisiol, neu fod darpariaeth yr adolygiad wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Gweithiodd y Gweithgor Adolygu Hamdden ar gyflymder a sicrhaodd bod yr oediadau cyn adrodd i aelodau cyn lleied â phosibl. Yn ogystal â bodloni'r amserlenni fel y'u nodwyd yn y cytundeb Ariannu a Rheoli, roedd swyddogion hefyd yn ymwybodol y gallai penderfyniadau am reoli a darparu'r Gwasanaeth Hamdden yn y dyfodol effeithio ar gyllidebau 2019-20 a 2020-21. Fodd bynnag, roedd amserlen gwneud penderfyniadau gyfyngedig a oedd yn rhoi cyfleoedd prin i swyddogion y Gweithgor Adolygu Hamdden ymateb i sylwadau aelodau o'r adroddiad Cyfnod Un a'u gweithredu ar gyfer adroddiad Cyfnod Dau.

35 Roedd amserlenni adrodd i aelodau yn hwyrach na fwriadwyd yn wreiddiol ac roeddent mewn dau gam fel a ganlyn:

a. adroddiad Cyfnod Un – craffu ar y cyd – 18 Hydref 2018
b. adroddiad Cyfnod Un – Gweithrediaeth – 31 Hydref 2018
c. adroddiad Cyfnod Un – Cyngor – 8 Tachwedd 2018

36 Roedd adroddiad Cyfnod Un yn cynnwys opsiynau ar:

a. y tri opsiwn rheoli;

b. Strategaeth Hamdden a Diwylliant ddrafft 2019-2029; a

c. Matrics gwerthuso drafft ar gyfer asesu opsiynau rheoli yn y dyfodol.

37 Roedd adroddiad Cyfnod Dau yn cynnwys asesiad o bob un o'r tri opsiwn rheoli gan ddefnyddio'r matrics gwerthuso a gytunwyd o raniad 60:40 rhwng meini prawf ariannol ac nad oeddent yn ariannol. Roedd amseriad adroddiad Cyfnod Dau fel a ganlyn:

a. adroddiad Cyfnod Dau – craffu – 20 Tachwedd 2018

b. adroddiad Cyfnod Dau – Gweithrediaeth – 28 Tachwedd 2018

c. adroddiad Cyfnod Dau – Cyngor – 29 Tachwedd 2018

38 Cadarnhaodd y Cyngor llawn yr opsiwn rheoli a ffafriwyd gan y swyddogion, sef 'Gwahanol fodelau darparu gwasanaeth' fel yr opsiwn darparu a rheoli ar gyfer gwasanaethau hamdden yn y dyfodol.

39 Ategwyd adroddiad y swyddog gan adolygiad yr ymgynghorwyr allanol o'r tri opsiwn rheoli. Er bod adroddiad y swyddog yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am y goblygiadau ariannol a'r amserlenni i roi penderfyniad y Cyngor ar waith, darparwyd manylion ychwanegol yn adroddiad yr ymgynghorydd.

### Prin oedd yr wybodaeth yn esbonio goblygiadau cyllideb byrdymor a hirdymor ac amserlenni i gefnogi gweithrediad y tri opsiwn rheoli

40 Roedd diffyg manylion yn adroddiad y swyddog yn nodi canlyniadau'r adolygiad o wasanaethau hamdden am oblygiadau cyllideb byrdymor a hirdymor ac amserlenni yn cefnogi gweithrediad y tri opsiwn rheoli. Roedd adroddiad y swyddog i'r cyngor llawn ar 29 Tachwedd 2018 yn nodi:

a. Opsiwn Un - Pe bai'r Cyngor yn aros gyda'r Ymddiriedolaeth Hamdden gyda gostyngiad cyllideb wedi'i dapro dros y pum mlynedd nesaf (2019-2024), byddai angen iddo gytuno ar ffi gwasanaeth ddiwygiedig drwy'r darpariaethau a amlinellwyd yn y Cytundeb Ariannu a Rheoli. Tua £3.3 miliwn y flwyddyn yw'r ffi reoli bresennol a delir gan y Cyngor i'r Ymddiriedolaeth.

b. Opsiwn Dau - Byddai dychwelyd gwasanaethau hamdden i reolaeth y Cyngor yn dychwelyd yr ardrethi annomestig cenedlaethol ar gyfer yr adeiladau am gost a amcangyfrifir o £600,000 y flwyddyn a byddai'n bwysau cost sylweddol i'r Cyngor.

c. Opsiwn Tri – Mae'n bosibl y gallai gwahanol fodelau darparu gwasanaeth gynhyrchu arbedion refeniw ac osgoi costau o'u cymharu ag opsiynau'r Cyngor a'r Sefydliad Dosbarthu Dielw presennol. Fodd bynnag, ni fydd y gweithredwr yn derbyn unrhyw Ostyngiad Gorfodol i ardrethi annomestig cenedlaethol os nad yw'n Ymddiriedolaeth Elusennol. Fodd bynnag, caiff y Cyngor, yn ôl ei ddisgresiwn, ddarparu gostyngiadau, a gellir ariannu'r rhain yr un fath â'r opsiwn Ymddiriedolaeth. Os mai'r model darparu gwasanaeth arall a ddewisir yw rhoi'r gwasanaethau a ddarperir gan yr

Ymddiriedolaeth ar gontract allanol llawn i weithredwr masnachol, gallai'r amserlenni tebygol fod oddeutu 12-18 mis.

41 Dewiswyd opsiwn (c) gan y Cyngor, er bod y penderfyniad hwn yn seiliedig ar ddata ariannol cyfyngedig gan ei bod yn aneglur beth fyddai'r model(au) posibl. Mae'n aneglur felly sut y cymhwysodd y Cyngor ei raniad 60:40 rhwng meini prawf ariannol ac nad ydynt yn ariannol a gytunwyd yn y matrics gwerthuso.

42 Ym mis Mehefin 2018, hysbysodd y Cyngor yr Ymddiriedolaeth Hamdden am y ffi reoli flynyddol wedi'i thapro yn y dyfodol o 2019-20 i 2023-24. Ni dderbyniodd aelodau y wybodaeth ariannol hon yn adroddiadau hamdden Cyfnod Un na Chyfnod Dau.

43 Rhoddodd adolygiad yr ymgynghorwyr o'r opsiynau rheoli a roddwyd i'r Cyngor llawn fel atodiad i adroddiad adolygu hamdden Cyfnod Dau ar 29 Tachwedd 2018 drosolwg i aelodau o'r gwahanol ddulliau caffael, fel mewnol, contract ar gyfer gwasanaethau, contract consesiwn, trosglwyddo ased cymunedol, trafodiad eiddo a chydweithrediad a phartneriaeth. Argymhellodd yr ymgynghorwyr ddull caffael ar gyfer pob gwasanaeth. Derbyniodd yr aelodau y matrics gwerthuso wedi ei gwblhau gan gynnwys pwysoliad pob un o'r 11 maen prawf (wedi eu rhannu rhwng ariannol ac nad ydynt yn ariannol) ac yn rhoi sgôr (0-5) i bob maen prawf.

44 Darparodd yr ymgynghorwyr ganlyniad eu hadolygiad o berfformiad yr Ymddiriedolaeth Hamdden i aelodau hefyd.

## Roedd diffyg cyfranogiad aelodau craffu prydlon ac ystyrlon yn yr adolygiad o Wasanaethau Hamdden a oedd yn cyfyngu craffu effeithiol

45 Mynegodd aelodau bryderon, wrth drafod yr adroddiad Hamdden Cyfnod Un yn y cydbwyllgor craffu ar 18 Hydref, ynghylch diffyg cyfranogiad aelodau ac ymgysylltiad cyfyngedig hyd hynny. Nododd aelodau bod grŵp Gorchwyl a Gorffen yn rhan o'r adolygiad hamdden yn ystod 2012-14, ond nid ar gyfer yr adolygiad hwn yn 2018.

46 Dywedodd swyddogion ei bod yn rhy hwyr yn y broses adolygu i grŵp Gorchwyl a Gorffen gael ei sefydlu gan y byddai'n oedi'r broses gwneud penderfyniadau gan y Cyngor llawn. Yn hytrach, sefydlodd y pwyllgor craffu Weithgor Strategol yn cynnwys pum aelod.

47 Roedd rhai aelodau yn y cyfarfod craffu ar y cyd ar 18 Hydref 2018 yn ansicr pam roedd yr opsiynau rheoli yn gostwng o bump i dri. Mynegwyd pryderon gan rai aelodau nad oedd dau opsiwn rheoli yn cael eu hystyried mwyach. Nid oedd y pwyllgor hwn yn cefnogi'r opsiwn a ffafriwyd gan y swyddogion ac argymhellodd y dylai fod pum opsiwn o hyd.

48 Sefydlodd y Cyngor weithgor aelodau ar ôl i'r adroddiad Cyfnod Un gael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu ym mis Hydref 2018. Er i hyn gynnig mwy o gyfle i Aelodau gymryd rhan yn y broses, nid yw'n eglur pa effaith gafodd y gweithgor ar yr adolygiad oherwydd ni chyfeiriwyd at ei waith yn yr adroddiad i'r Weithrediaeth ar 28 Tachwedd.

49 Ar 31 Hydref, ystyriodd y Weithrediaeth argymhelliad y pwyllgor craffu ond ni wnaeth ei gefnogi a chymeradwyodd tri opsiwn rheoli.

### Mae'r Cyngor yn nodi rhai gwersi ar gyfer adolygiadau yn y dyfodol

50 Yn ystod ein gwaith maes, myfyriodd swyddogion ac aelodau ar yr adolygiad hamdden hwn gan nodi gwersi a ddysgwyd. Yn bennaf, tynnodd y rhai i ni eu cyfweld yn rhan o'r adolygiad sylw at y canlynol:

a. Roedd angen mwy o amser i gwblhau'r adolygiad;

b. yr un swyddogion yn cymryd rhan mewn sawl adolygiad gwasanaeth y Cyngor ar yr un pryd, felly mae angen neilltuo mwy o adnoddau staff i gynnal adolygiadau; ac

c. yr angen am gontractau cadarn ar gychwyn y broses o roi unrhyw wasanaeth Cyngor ar gontract allanol.

51 Yn rhan o'r adolygiad hwn, nodwyd gennym hefyd sut y gall y Cyngor ddysgu o'i adolygiad gwasanaeth ei hun:

a. mae angen cynnwys aelodau yn gynharach yn yr adolygiad i ddarparu gwybodaeth gefndir i aelodau, er enghraifft, trwy friffio aelodau a grwpiau Gorchwyl a Gorffen, fel bod aelodau yn deall y broses ac yn canolbwyntio ar yr wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno.

b. sicrhau dealltwriaeth lawn o ofynion ac amserlenni contractau i osgoi camddeall gofynion cyfreithiol.

c. sicrhau mwy o eglurder ynghylch goblygiadau a gweithrediad penderfyniad y Cyngor, e.e. amserlenni ar gyfer gweithredu penderfyniadau, yr hyn y mae angen iddo ddigwydd, unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu penderfyniad a goblygiadau cyllideb ar gyfer y dyfodol.

## Mae gan y Cyngor amser cyfyngedig nawr i ddatblygu a darparu model cynaliadwy

52 Cymerodd y Cyngor tua dwy flynedd, rhwng 2012 a 2014, i adolygu a phenderfynu ar y model darparu presennol ar gyfer gwasanaethau hamdden. Ym mis Tachwedd 2018, rhoddodd y Cyngor 16 mis i'w hun i sefydlu gwahanol fodel(au) darparu.

53 Bydd angen i'r Cyngor fod â threfniadau ar waith ar gyfer darpariaeth barhaus ei wasanaethau hamdden. Roedd yr adroddiad adolygu Hamdden Cyfnod Dau i'r Cyngor ar 29 Tachwedd 2018 yn nodi mai 12-18 mis fyddai'r amserlen debygol i sicrhau gweithredwr ar gontract allanol fel model darparu gwasanaeth arall, am gost o tua £100,000 yn dibynnu ar faint y byddai'r Cyngor yn gallu ei wneud yn fewnol o ran caffael.

54 Dyma'r meysydd gwasanaeth Hamdden sydd ar gontract allanol ar hyn o bryd:

a. Dysgu i Oedolion a'r Gymuned a Llyfrgelloedd;

b. Canolfannau Hamdden/Chwaraeon;

c. Tŷ a Pharc Bedwellte;

ch. Parc Bryn Bach; a

d. Datblygu'r Celfyddydau a'r Metropole.

55 I weithredu penderfyniad y Cyngor i chwilio am wahanol fodel(au) darparu, efallai y bydd angen gwahanu'r gwasanaethau hyn. Gallai hyn gynyddu'r amser a'r adnoddau i weithredu penderfyniad y Cyngor yn llawn.

56 Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd gan y Cyngor gynllun prosiect eglur yn nodi sut y bydd yn dod i hyd i wahanol fodel(au) darparu ac yn ei weithredu. Bydd angen diweddaru cynllun prosiect yn rheolaidd, gan amlinellu gweithgareddau, cyfrifoldebau a cherrig milltir allweddol i sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei bwyslais ac yn brydlon. Mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo i ymestyn cylch gwaith y Gweithgor Adolygu Hamdden i fwrw ymlaen â phenderfyniad y Cyngor i chwilio am wahanol fodel(au) darparu. Mae gan y gweithgor hwn waith sylweddol i'w gydgysylltu, ei gwblhau ac adrodd arno i wneud yn siŵr nad oes unrhyw darfu ar y ddarpariaeth o wasanaethau hamdden yn y dyfodol.

57 Ar 29 Tachwedd 2018, cytunodd y Cyngor ar y ffordd ymlaen ar gyfer gwasanaethau hamdden, ond nid oedd yr adroddiad i aelodau yn cyfleu cymhlethdod posibl darparu'r opsiwn hwn a gytunwyd, a allai gynnwys rhai o'r camau canlynol neu bob un ohonynt:

a. penderfynu a oes angen gwahanu gwasanaethau a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth ar hyn o bryd yn barod ar gyfer unrhyw broses dendro/caffael bosibl;

b. penderfynu sut y gellid caffael y gwasanaethau hamdden, fel trwy un caffaeliad wedi ei wahanu'n Lotiau fesul gwasanaeth neu drwy ymarferion caffael unigol;

c. penderfynu ar hyd y contract ar gyfer pob gwasanaeth;

ch. nodi'r gwerth ar gyfer y gwasanaeth cyfan a/neu werth y contract blynyddol fesul bob gwasanaeth hamdden ar wahân;

d. cydymffurfio â rheoliadau caffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd os bydd gwerth y caffael yn fwy na'r trothwy(on) perthnasol: (£181,302 ar gyfer Cyflenwadau a Gwasanaethau, £4,551,313 ar gyfer Gwaith, £615,278 ar gyfer Cymdeithasol a gwasanaethau penodol eraill);

dd. profi'r farchnad i asesu diddordeb neu gynnal ymchwil i'r farchnad wrth ddesg;

e. paratoi dogfennau tender, gan gynnwys manyleb/cwmpas gwasanaethau manwl, fesul pob gwasanaeth hamdden;

f. ymgymryd â phroses(au) caffael fel sy'n ofynnol fesul pob gwasanaeth hamdden, gan gydymffurfio ag amserlenni gorfodol Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (fel sy'n angenrheidiol yn seiliedig ar werth y caffael). Mae amserlenni Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn ddibynnol ar y dewis o weithdrefn;

i. Gweithdrefn agored: o leiaf 35 diwrnod (os na chyhoeddir unrhyw hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw, mae'r amserlen yn lleihau i 15 diwrnod os caiff hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw ei gyhoeddi);
ii. Gweithdrefn gyfyngedig: 2 gam, o leiaf 30 diwrnod ar gyfer y ddau (gellir lleihau'r ail gyfnod trwy gydymffurfio â phrosesau penodol);
iii. Gweithdrefn a gytunir: yr un fath â'r Weithdrefn gyfyngedig.

ff. yn ogystal â chydymffurfio â'r amserlenni byddai'n rhaid i'r Cyngor gynnwys rhagor o amser ar gyfer y canlynol yn y broses/prosesau caffael hefyd:

i. gwerthuso ymatebion;
ii. ceisio cymeradwyaeth fewnol ar wahanol gamau (fel sy'n briodol);
iii. hysbysu'r rhai sy'n tendro; a
iv. chynnal trafodaethau cytundebol gyda'r darparwyr/darparwyr llwyddiannus.

g. cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 1981 pan fo'n briodol;
ng. datblygu contractau gyda darpar ddarparwr/wyr, gan nodi canlyniadau contract eglur;
h. gwneud trefniadau rheoli contract yn y dyfodol gydag unrhyw ddarparwr/wyr gwasanaeth newydd;
i. egluro o'r cychwyn weledigaeth a disgwyliadau'r Cyngor ar gyfer pob gwasanaeth; a
l. nodi cyfanswm gwerth y contract ar gyfer y gwasanaeth cyfan a/neu gyfanswm gwerth y contract fesul pob gwasanaeth hamdden ar wahân os ydynt yn cael eu caffael yn unigol. Mae cyfanswm gwerth contract yn golygu cost y flwyddyn am holl gyfnod y cytundeb.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru